

Ein Heiriolwr nefol

“Ac fe ofynnaf finnau i'm Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth.” (adn. 16)

Beth am ddarllen Ioan 14:15–24 ac yna myfyrio

A'r rhodd olaf, ond nid y lleiaf, i Iesu ei gadael i ni yw ei rodd o'r Ysbryd Glân. 'Parakletos' ydy'r gair Groeg mae Iesu'n ei ddefnyddio i ddisgrifio'r Ysbryd Glân, sydd, fel y gwyddoch mae'n siŵr, yn golygu 'yr un a alwyd i ddod ochr yn ochr i helpu'. Sut y gellir cyfieithu hyn orau?

Mae 'Diddanydd' yn gamarweiniol efallai. Mae 'Cynghorydd' yn well, ond yn tueddu i fynd gyda'r ffasiwn o ddarostwng popeth i dermau seicolegol. Mewn gwirionedd, mae'r gair '*parakletos*' bron yn sicr yn cadw ei ystyr cyfreithiol, ac felly byddai'n well ei gyfieithu fel 'eiriolwr' yn yr ystyr gyfreithiol. Mae'r ystyr yma yn gweddu'n dda i'r darlun cyfan mae Ioan yn ei beintio yn ei efengyl am Grist – a'r disgyblion – sydd ar brawf dros y gwirionedd gerbron byd gelyniaethus. 'Eiriolwr' arall fel Iesu ydy'r Ysbryd Glân. Bydd yn gefn i'r disgyblion yn union fel yr oedd Iesu. Bydd yn gweinidogaethu iddynt mewn cariad hunanaberthol, yn union fel y gwnaeth Iesu. Bydd yn eu herio pan fydd angen hynny arnynt, yn union fel gwnaeth Iesu.

Mae llawer yn credu mai ein cysuro'n unig yw rôl yr Ysbryd Glân. Ond mae'n gwneud llawer mwy na hynny. Mae'n rhaid i ni gofio bod yr Ysbryd Glân gyda ni i'n hamddiffyn ac i'n hannog a'n cefnogi. Bydd hyn o gysur mawr i'r rhai sydd ynghanol treialon dybryd oherwydd eu hymroddiad i Grist. Mae byd wedi'i sylfaenu ar gelwyddau, twyll ac afrealiti yn ddieithr i Ysbryd y Gwirionedd. Ond mae'r Ysbryd yn sefyll wrth ein hochr i'n galluogi i siarad a byw'r gwirionedd, gan ein helpu i ddilyn Iesu'r Gwirionedd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Marc 13:9–11; Ioan 7:37–39; 1 Thes. 1:2–10

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fydd yr Ysbryd Glân yn cryfhau disgyblion Iesu?
2. Am beth mae Paul yn cymeradwyo'r Thesalonïaid?

Gweddi

O Dad, mae'n gysur mawr gwybod bod yr Ysbryd Glân yn Eiriolwr i mi. Dw i'n ymestyn fy nwylo i dderbyn yr holl nerth dw i ei angen ganddo i wynebu'r dydd. Ond helpa fi, nid yn unig i gymryd, ond i roi hefyd. Yn enw Iesu. Amen.